**CYD-BWYLLGOR GwE**
**24.02.16**

**Yn bresennol:** **Y Cyng. Eryl Williams (Cadeirydd)**
**Y Cyng. Michael Williams (Is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Kenneth P. Hughes, Wyn Ellis Jones a Gareth Thomas.

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Eithne Hughes (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig)

**Swyddogion Heb bleidlais:** Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint)), John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Karen Evans (Cyngor Sir Dinbych), Delyth Molyneux (Cyngor Ynys Môn), R. Ellis Owen (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) ac Arwyn Thomas (Cyngor Gwynedd).

**Hefyd yn Bresennol:** Huw Foster Evans (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Geraint Rees (Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynbedd), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau:** Diane Chisholm (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Delyth Molyneux (Cyngor Ynys Môn)

**Estynnwyd croeso arbennig i Mrs Eithne Hughes, Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd, a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Cyd-bwyllgor fel olynydd i Mrs Annwen Morgan sydd bellach yn Ddirprwy i'r Prif Weithredwr yng Nghyngor Ynys Môn.**

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2016, fel rhai cywir.

Nododd y Cynghorydd Gareth Thomas (Cyngor Gwynedd) bod mater wedi ei godi yn y cyfarfod diwethaf nad oedd wedi ei gynnwys yn y cofnodion. Fodd bynnag roedd yn dymuno egluro'r sefylla gan nodi mai trefniadau mewnol i Gyngor Gwynedd oedd dan sylw yn ymwneud a hysbysebu am swyddi penodol. Aeth ymlaen i fynegi ei anfodlonrwydd bod Aelod Portffolio Addysg o Sir arall wedi anfon e-bost yn dilyn y cyfarfod ynglyn a'r mater. Roedd y Cynghorydd Thomas o'r farn na ddylai unrhyw aelod o'r Cydbwyllgor fod wedi codi'r mater

ac os oedd unrhyw bryderon y dylid eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r man priodol. Hyderai na fyddir yn codi'r mater eto.

Esboniodd y Cynghorydd Michael Williams bod y llythyr anfonwyd yn hunan-eglurhaol gan ddatgan pwysigrwydd i gydweithio ynglyn ag unrhyw faterion sydd yn ymwneud a GwE a'i fod o'r farn bod y mater drafodwyd yn creu goblygiadau i GwE ac yn mynd yn groes i'r Model Cenedlaethol.

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol nad oedd y mater wedi ei gofnodi oherwydd nad oedd wedi ei gynnwys ar Raglen y cyfarfod diwethaf i'w drafod ac nac oedd ychwaith ar raglen y cyfarfod hwn i'w drafod.

## 3. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2015-18 – ATODIADAU AWDURDOD LLEOL

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE gynllun busnes a oedd wedi ei drafod gan y Cyd-bwyllgor ar 12 Tachwedd 2015 a oedd yn gosod gweledigaeth tair blynedd, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth. Cyfeiriwyd at yr atodiadau i'r cynllun busnes a oedd yn adlewyrchu y blaenoriaethau lleol a'r atebolrwydd lleol o fewn yr awdurdodau. Cadarnhawyd bod y timau o fewn GwE yn y tri hwb wedi trafod y blaenoriaethau gyda Chyfarwyddwyr Addysg a Phenaethiaid wedi bod yn rhan greiddiol o'u darparu.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a chysoni trefniadau craffu ar draws y 6 awdurdod, sicrhaodd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint) bod mecanwaith mewn lle i'r Swyddogion Craffu ystyried themau o'r gwahanol awdurdodau a thu hwnt a fydd yn arwain at raglen gyfrannol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Cymeradwyo'r Atodiadau Awdurdod LLeol y Cynllun Busnes yn ddarostyngedig i gywiro Atodiad 6 (yn yr iaith Saesneg) lle cyfeirir at Ynys Mon yn hytrach na Chyngor Wrecsam o dan y golofn "Nodau GwE" cyn eu cyhoeddi'n derfynol.**

## 4. CYLLIDEB GwE 2015-16 – ADOLYGIAD TYMOR YR HYDREF 2015

(a) Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd adroddiad yn diweddaru'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2015/16 a oedd yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, ynghyd ag Atodiad 1 a oedd yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.

(b) Tywyswyd y Cyd-bwyllgor drwy'r adroddiad gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd gan dynnu sylw at yr amrywiadau ariannol. Nodwyd bod sefyllfa dros y flwyddyn yn eithaf sefydlog a rhagwelir cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2015/16 yn £271,486.

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Tra'n deall cefndir y gronfa tanwariant, gofynnwyd a oedd cynlluniau i'w wario, o ystyried bod ysgolion yn cael eu beirniadu'n gyson am gadw balansau sylweddol
- Cyfeiriwyd at y grantiau a dderbynir gan Lywodraeth Cymru ac yn benodol Grant Her Ysgolion Cymru gan nodi pwysigrwydd na ddylid creu cyfundrefn anghyfartal ac amrywiaeth ar draws y 4 rhanbarth gan sicrhau bod ysgolion yn cael gwerth am arian
- Gofynnwyd a fyddai'n bosibl i'r dyfodol dderbyn aminelliad o'r swm sy'n ddarbodus i'w gadw o safbwynt y tanwariant

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod esboniwyd:

- Nad oedd £271,486 o danwariant yn swm enfawr oherwydd bod angen elfen o arian wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd all godi, e.e. bod awdurdodau yn gorfod darganfod mwy o doriadau, diswyddo staff, a.y.b.
- Bod balansau o ddim mwy na 5% - 10% wedi cael ei osod yn lleol. Trafodwyd y tanwariant gyda Phrif Weithredwyr ar draws y Gogledd a phenderfynwyd peidio gosod lefelau oherwydd gall y sefyllfa newid ar gyfer y flwyddyn ganlynol
- Cydnabuwyd bod amrywiaethau yn y lefelau grantiau ar draws y 4 consortia ond hyderir y byddai fwy o gydweithio rhyngddynt i'r dyfodol

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 5. CYLLIDEB 2016/17

Cyflwynodd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd gyllideb sylfaenol GwE am y flwyddyn 2016/17 gan gynnwys cyfraniadau ariannol yr awdurdodau i'r Cydbwyllgor.

Tywyswyd aelodau'r Cyd-bwyllgor drwy'r gyllideb gan dynnu sylw at leihad o £59,092 yn y dyraniad ariannol gan yr awdurdodau. Nodwyd ymhellach bod GwE yn gorfod dygymod ag effaith ariannol chwyddiant ac arbedion sy'n lleihau gwariant arfaethedig 2016/17 o £131,180 ac y byddir yn cyflwyno adroddiad yn fuan ym mis Mehefin fydd yn adlewyrchu'r ffigwr hwn.

**Penderfynwyd: Derbyn a mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2016/17 fel amlinellir yn yr adroddiad.**

## 6. CYTUNDEB PARTNERIAETH (AWDURDODAU AC YSGOLION)

(a) Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, er gwybodaeth, gytundeb Partneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol y gogledd a'u hysgolion gan nodi bwysigrwydd i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol o'r ddogfen. Diwygiwyd y gytundeb yn 2015 i adlewyrchu'r newidiadau a fu. Nodwyd bod y ddogfen yn egluro nifer o elfennau megis egwyddorion gweithredu, eglurhad o'r broses categoreiddio ysgolion sydd yn rhan annatod o'r bartneriaeth rhwng GwE a'r ysgolion. Ychwanegwyd bod y broses categoreiddio yn cael ei fireinio yn gyson. Cyfeiriwyd at atodiad 3 i'r gytundeb sef pwerau ymyrraeth sydd mewn lle ar gyfer yr awdurdod lleol fel y cyrff statudol.

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau isod gan Aelodau unigol:

- Bod troednodyn ar dudalen 46 o'r dogfennau yn datgan bod awdurdodau lleol wedi gofyn i GwE ymgymryd a rhai o'r cyfrifoldebau yn ymwneud a hyfforddiant a rol llywodraethwyr – gofynnwyd oni ddylid rhestru'r cyfrifoldebau hyn?
- Bod rhai materion o fewn y gytundeb yn eitha' amlwg ond ar y llaw arall gall peth ansicrwydd godi ynglyn a phwy fyddai'n rhoi cefnogaeth ar rai materion
- Awgrymwyd o ran y gytundeb, oni fyddai'n fuddiol i gynnwys atodiad ar gyfer pob awdurdod lleol fel a wneir yn y cynllun busnes rhanbarthol?
- O safbwynt diogelu plant, a ddylid nodi eglurder o gyfrifoldeb Ysgol, cyfrifoldeb awdurdodau a chyfrifoldeb GwE?

(c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, esboniwyd:

- Gan Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint), bod dyletswydd ar y Bwrdd Rheoli i ddarparu gwasanaeth di-dor i ysgolion a'u bod o'r farn y byddai un ddogfen yn briodol. Fodd bynnag, roedd bwriad gan Bwrdd Rheoli i gynnal adolygiad yn ystod tymor yr haf.
- Tra'n derbyn bod y Siroedd yn wahanol, bod gwaith ar lawr pob ysgol i fod yn debyg
- Bod angen rhai elfennau cyffredin ar draws y rhanbarth ond rhaid cymryd i ystyriaeth y capasiti sydd yn gallu effeithio ar natur y cytundeb

**Penderfynwyd: Nodi cynnwys y Cytundeb Partneriaeth a'r angen i dderbyn diweddariad ar gyfrifoldebau generic a lleol yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor.**

7. **CONSORTIA YN CYDWEITHIO**

Adroddodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod disgwyliad gan ESTYN i'r rhanbarthau gydweithio mewn datblygu a gwella prosesau o fewn ysgolion.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) GwE) ar ddatblygiadau hyd yma gan nodi mai'r nod ydoedd darparu her a chefnogaeth mor effeithiol a phosibl ar gyfer ysgolion Cymru. Nodwyd bod pwysau enfawr i ysgolion gydweithio ac yn fwy pwysig bod y consortia yn cydweithio hefyd.

O safbwynt y datblygiadau hyd yma, esboniwyd:

- Bod 4 Gyfarwyddwr y rhanbarthau yn cyfarfod yn aml
- Eu bod yn rhannu arferion da
- Yn adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio
- Cytuno ar raglen waith penodol

Ymhelaethwyd ar y meysydd cydweithio sef:

- Rhaglen ddatblygu Genedlaethol gytunedig ar gyfer Ymgynghorwyr Her
- Grwp Ansawdd o safoni categoreiddio cenedlaethol (un aelod o bob consortia wedi cael tasg ar gyfer cymedroli a chael gwell cysondeb)
- Creu Rhaglen Datblygu amrywiol drwy gydweithio gyda chonsortia eraill ar gyfer datblygiadau gyrfa
- Gweithredu'r fenter Ysgolion Arloesi Digidol / Y Fargen Newydd / Dyfodol Llwyddiannus / Ysgolion Arweiniol Creadigol (gwaith yn mynd rhagddo ynglyn a hyrwyddo Grwp Cenedlaethol i gydweithio ac fe nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r cydweithio)
- Rhannu arferion ynglyn a GAD ymhob sector gyda thystiolaeth glir o'r effaith
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o ddefnyddio cyllid a grantiau yn effeithiol ar lefel genedlaethol
- Asesiadau risg / gwerth am arian er mwyn profi / arfarnu

I gloi, nodwyd bod y gwaith yn datblygu a'i fod yn fuddiol i gydweithio.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Gan gynrychiolydd Llywodraeth Cymru bod canmoliaeth sylweddol i waith y Grwp Ansawdd gyda unigolion yn ymateb yn gadarnhaol iawn yn y ddeialog
(ii) Croesawyd y cydweithio a phwysigrwydd i'w ddatblygu.
(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a defnydd o'r iaith Gymraeg gan arolygwyr ESTYN, cadarnhawyd y byddir yn defnyddio Cymry Cymraeg o fewn y Timau Arolygu.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

## 8. RHAGLEN DATBLYGU YMGYNGHORWYR HER

Gosododd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE gefndir y cyflwyniad ddilynol drwy nodi bod disgwyliadau uchel o dimau GwE ac yn hyn o beth datblygwyd rhaglen ddatblygu ar gyfer yr Ymgynghorwyr Her.

Esboniodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) GwE bod ymarferwyr / penaethiaid yn rhoi pwyslais ar ddatblygu staff i sicrhau ansawdd a safonau a bod gan GwE gyfrifoldeb i ddatblygu staff ei hun.

Derbyniwyd gyflwyniad gan Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE) ac fe nododd bod rol Ymgynghorwyr Her yn newid er mwyn datblygu a ffurfioli rhaglen a fyddai'n canolbwyntio ar y safonau cenedlaethol. Fe ymhelaethodd ar y datblygiadau hyd yma:

- Datblygu hyfforddi a mentora
- Rhannu arfer effeithiol a'r gwersi a ddysgwyd
- Gweithdai yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol e.e. sut i weithio'n effeithol gyda ysgolion sy'n tangyflawni
- Hyfforddiant diogelu statudol ar gyfer pob Ymgynghorydd Her
- Cyflwyniadau arfer effeithiol gan gydweithwyr o gonsortia eraill e.e. technegau effeithiol

- Darparu cyfleoedd i rannu arfer effeithiol rhwng hybiau ar gyfer Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio gyda ysgolion uwchradd categori coch a melyngoch
- Hyfforddi'r hyfforddwyr ar gyfer dwy Ymgynghorydd Her sy'n gweithio gyda'r sector cynradd
- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau Ymgynghorwyr Her i'r lefel sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r safonau cenedlaethol
- Gwella ansawdd
- Fframwaith – sicrhau bod Ymgynghorwyr Her yn gweithio gyda ysgolion / uwch arweinwyr / llywodreathwyr
- Sicrhau hunan arfarniad a chynllun gwella cadarn
- Trefnu cefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol
- Datblygu arweinwyr ysgolion
- Canolbwyntio ar sanawdd a deilliannau addysgu a dysgu
- Cyfarfodydd montrio a gwerthuso gwelliannau ffurfiol pob tymor

Nodwyd bod y rhaglen yn ddatblygol ac yn destun peilot ar hyn o bryd gyda'r sector uwchradd a hyderir ehangu'r rhaglen i'r sector cynradd. Ceisir annog unigolion o fewn tim GwE i ddatblygu staff ei hunain.

Adroddwyd ymhellach bod hysbysebion wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar am Ymgynghorwyr Her newydd ac yn dilyn penodiadau fe fyddir yn datblygu rhaglen anwytho iddynt.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac fe amlygwyd y prif bwyntiau canlynol:

(i) Nad oedd son am sut fyddai Ymgynghorwyr Her yn cadw mewn cysylltiad a'r awdurdodau lleol, sydd yn y pen draw, yn gyfrifol am safonau'r addysgu

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod cyfarfod i'w gynnal ar 15 Mawrth 2016 ac y byddai trafodaethau estyngedig bryd hynny ynglyn a'r mater uchod.

(ii) Ar hyn o bryd bod anghysondebau o safbwynt ansawdd ac nid yn angenrheidiol yn ymwneud a hyfforddi ond efallai fwy ynglyn a threfniadaeth.

Mewn ymateb, eglurwyd bod gan GwE ddyletswyddau penodol sef i ddarparu rhaglen datblygu ynghyd a rheoli perfformiad yn ogystal a rheoli perfformiad unigolion. Nodwyd y byddai prosesau yn gorfod cydblethu a chydnabuwyd bod anghysondebau ond bod hyn yn fater i gydweithio arno.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a hyfforddi a chydweithio hefo consortia eraill, esboniodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Safonau GwE mai'r bwriad ydoedd darparu pecyn cenedlaethol i rannu arbenigedd.

(iv) Prawf y rhaglenni datblygol fydd sut y gellir mesur eu heffaith a sut y byddir yn effeithio ar ysgolion unigol, grwpiau ysgolion, a chanlyniadau arholiadau'r haf.

Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y datblygiadau yn rhai tymor hir ac y byddai'n anodd mesur yr effaith ar ganlyniadau arholiadau haf eleni.

(v) Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Safonau GwE bod angen ehangu'r cryfderau ar draws yr ysgolion a hyderir y bydd y rhaglen uchod yn llwyddo i godi ansawdd ac y gwelir gwelliant mewn unigolion. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynglyn â methiant Ymgynghorwyr Her i gyflawni yn unol a'r safonau disgwyliedig, y byddir yn derbyn arweiniad gan yr awdurdod lleytol ynglyn a threfniadau medrusrwydd.

(vi) Tueddir i'r ffocws fod ar ysgolion sydd yn y categori coch / oren ac y dylid sicrhau na ddylid anghofio yr ysgolion hynny sydd yng nghategoriau gwyrdd a melyn.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 9.00 a.m. a daeth i ben am 10.40 a.m.

**CADEIRYDD**

Ar derfyn y cyfarfod nodwyd bod oddeutu 1,300 o athrawon wedi mynychu cynhadledd genedlaethol yn Venue Cymru, Llandudno, ar 12 Mawrth 2015. Braf ydoedd nodi bod cynifer wedi mynychu a oedd yn dangos ymrwymiad gan y staff.